

## Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolwr Prosiect a Rhaglen Asedau Technoleg

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Rheolwr Prosiect a Rhaglen Asedau Technoleg

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Rheolwr Prosiect a Rhaglen Asedau Technoleg** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS4 (35-37) - £43,421 - £45,441

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Canolfan Rheoli Traffig Conwy**

**Dyddiad cau:** 06/06/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Mae gan ACGChC gyfle cyffrous i reolwr prosiect a rhaglen profiadol ymuno â'n tîm technoleg deinamig a chefnogi Rheolwr System Cludiant Deallus (ITS) a Thechnoleg Drydanol ACGChC i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglenni cyfalaf a refeniw sy'n cwmpasu'r rhwydwaith cefnffyrdd yn Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Byddai'r swydd yn addas ar gyfer ymgeisydd sydd â sgiliau trefnu a rheoli cryf ac sy'n gallu ysgogi eu hunain ac sy'n gallu defnyddio eu menter eu hunain i gwblhau tasgau. Elfen allweddol o'r rôl hon yw'r gallu i reoli staff a'r gadwyn gyflenwi sy'n cynnwys darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol, ymgynghorwyr a chontractwyr. Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ei sgiliau i sicrhau bod y rhaglenni cyfalaf a refeniw blynyddol yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb, yn unol â'r rhaglen a bod y gwaith yn cael ei gwblhau i'r safonau ansawdd gofynnol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen gyfalaf a refeniw flynyddol sydd â gwerth cyfunol o tua £2M y flwyddyn. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r tîm ITS sy'n cynnwys 3 aelod o staff a fydd yn darparu cymorth technegol gyda rheoli'r gwaith.

Rhaid i'r ymgeisydd feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i addasu eich arddull i weddu i'ch cynulleidfa. Rhaid iddynt hefyd fwynhau gweithio'n agos gyda chleientiaid ac aelodau eraill o'r tîm technoleg gan sicrhau eu bod yn darparu datrysiadau sy'n rhagori ar ddisgwyliadau ein cleient.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad gyda meddalwedd rheoli prosiect yn ogystal â gallu defnyddio Microsoft Technologies fel Word, Excel, Project a PowerBI yn hyfedr. Yn ddelfrydol, bydd yr ymgeisydd yn gyfforddus yn defnyddio ystod o feddalwedd ac yn gallu dysgu'n gyflym sut i ddefnyddio systemau a rhyngwynebau newydd.

Gan weithio i ACGChC byddwch yn profi amgylchedd gwaith cynhwysol, cyfeillgar a hyblyg lle caiff cydweithwyr eu hannog i dyfu a datblygu. Cyfle gyrfa ystyrlon a gwerth chweil lle byddwch yn helpu i drawsnewid cymdeithas. Manteision eraill o weithio gyda ni yw pensiwn sector cyhoeddus, gwyliau â thâl a gostyngiadau staff eraill.



# Cyfrifoldebau

**Rheoli Prosiect**

- Ymgymryd â rôl oruchwylio a chydlynu ar gyfer gweinyddu holl gontractau'r Asiant a sicrhau y cânt eu cyflawni yn unol â'r gofynion costau, amser ac ansawdd
- Gweithredu fel gweinyddiaeth contract yr Asiant ac arbenigwr caffael i brosiectau ar sail Technoleg
- Sicrhau bod y gwaith o weinyddu contractau ar gyfer prosiectau ar y rhwydwaith yn cydymffurfio â gofynion LlC.
- Gweithredu fel Noddwr Prosiect ar brosiectau fel y cytunwyd. I'r perwyl hwn, ymgymryd â'r swyddogaethau.
- Gweithredu fel Cleient CDM ar brosiectau fel y cytunwyd. Cynghori a chynorthwyo Noddwyr Prosiect ar rôl y Cleient CDM.
- Rheoli'r holl gyllidebau prosiect Technoleg perthnasol sy'n gysylltiedig â'r asedau â ganlyn;
- Cynorthwyo'r rheolwyr asedau technoleg eraill i gwrdd gyda amcanion yr uned ar gyfer rhaglenni refeniw a rheoleiddio pan fo rheolwr yr uned yn rhoi cyfarwyddyd i wneud hynny.

**Rheoli Rhaglen**

Cynorthwyo'r broses i adnabod, hyrwyddo a blaenoriaethu rhaglenni blynyddol a rhaglenni pum mlynedd yr Asiant o gynlluniau adnewyddu asedau Technoleg, uwchraddio a chynlluniau diogelwch.

Cefnogi Rheolwr Uned Twnneli a Thechnoleg yn natblygiad cyffredinol a chyflawni'r rhaglen o brosiectau refeniw a chyfalaf ar draws y rhwydwaith Cefnffyrdd yng ngogledd Cymru yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (LlC).

Galluogi cyflawni'r rhaglenni o brosiectau drwy gaffael gwasanaethau ymgynghorol cefnffyrdd a gwaith adeiladu yn unol â gweithdrefnau'r Asiant.

**Dyletswyddau Technegol Eraill**

Cynorthwyo yng nghyswllt agweddau technegol a chytundebol y sefydliad, monitro ac adnewyddu contractau fframwaith yr Asiant.

Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisi a gweithdrefnau caffael prosiectau, gan gynnwys datblygu a gweithredu system rheoli prosiectau SharePoint a'r gronfa ddata gysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys materion hyfforddi a datblygu staff o fewn yr Asiant a gyda darparwyr gwasanaeth.

Cynorthwyo gyda rheoli, casglu, paratoi a chyflwyno amcangyfrifon cost a rhaglennu i LlG yn unol â'r prosesau comisiynu a gytunwyd.

Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r swydd.

Sicrhau bod darparwyr gwasanaeth Awdurdodau Partner yr Asiant a'r Fframwaith yn cydymffurfio â pholisïau a safonau y DU / LlC, yn cynnwys:

**Rheoli Perfformiad**

Cynorthwyo'r Rheolwr Busnes a Gweithrediadau Statudol, a staff perthnasol i ddatblygu systemau a gweithdrefnau ar gyfer System Rheoli Busnes yr Asiantaeth.

Sicrhau y gweithredir systemau a gweithdrefnau er mwyn archwilio, monitro a rheoli perfformiad y gadwyn gyflenwi wrth gyflawni'r prosiectau.

Gweithredu dulliau o arolygu perfformiad a gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwelliant parhaus.

Mynd i'r afael â meysydd lle mae diffyg perfformiad gan y darparwr gwasanaeth a'r contractwr.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Gallu gweithio dan bwysau
Gallu gweithio mewn amgylchedd tîm.
Yn ymroddgar ac â'r gallu i gymell ei hun
Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun o fewn paramedrau diffiniedig.
Gallu derbyn, cymhathu a gwerthuso gwybodaeth o amryfal ffynonellau
Rhaid i ymgeiswyr fod yn frwdfrydig a meddu ar y gallu i weithio gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosib

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Gradd mewn disgyblaeth briodol neu HNC mewn disgyblaeth Peirianneg gyda phrofiad rheoli prosiect sylweddol.

## Profiad perthnasol

- Profiad perthnasol wrth reoli a chyflawni cynlluniau gwella isadeiledd
- Profiad mewn paratoi a chydlynu/rheoli rhaglenni gwaith, cyllidebau a systemau rheoli ansawdd.
- Profiad o weinyddu contractau a chaffael prosiectau

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

- Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosib
- Gallu cydlynu a rheoli'n effeithiol y broses o gyflwyno rhaglenni gwaith drwy ddarparwyr gwasanaeth i derfynau amser penodedig
- Rheoli risg gan gyfeirio at CDM a Rheoliadau iechyd a diogelwch eraill.
- Ymgymryd â dyletswyddau'n hyderus ac yn broffesiynol, gyda'r gallu i ddangos arloesedd a chreadigedd.
- Gallu derbyn, cymhathu a gwerthuso gwybodaeth o amryw o ffynonellau, a darparu argymhellion manwl
- Gwybodaeth fanwl am reoli prosiectau a phrosesau allweddol wrth gyflwyno prosiectau unigol mewn amgylchedd peirianyddol neu adeiladu
- Gwybodaeth fanwl o Gynllun Cofrestru Trydanol Priffyrdd a chofrestriad Cynllun Sector Priffyrdd Cenedlaethol.
- Gwybodaeth fanwl o reoliadau statudol, safonau a manyleb perthnasol mewn perthynas ag asedau technoleg/trydanol gan gynnwys Rheoliadau Gwaith Trydan a Gofynion Gosodiadau Trydanol BS7671.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar datblygedig.
- Sgiliau TG hyfedrus mewn meddalwedd safonol yn y diwydiant.
- Trwydded yrru gyfredol

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.